Canllawiau Cred – Pennod 5

5

LLE YR WYF FI

Wrth hysbysu ei ddisgyblion y byddent yn gwybod, y diwrnod y derbynient yr Ysbryd Glân o law eu Tad nefol, 'fy mod i yn y Tad a chwithau ynof fi a minnau ynoch chwithau', ni chyfeiriodd Iesu Grist at y ffaith fod i'r disgyblion fod ynddo ef, ac iddo yntau fod yn y Tad, yn golygu eu bod hwythau hefyd yn y Tad. Roedd hynny'n oblygedig yn ei eiriau yn sicr. Rhyfedd na fuasai wedi ei grybwyll. Ai'r esboniad oedd ei fod yn cymryd nad oedd yr agwedd hon i'r berthynas a fyddai rhwng credinwyr a phersonau'r Drindod o hyn ymlaen yn fater digon pwysig i'w grybwyll?

I'r gwrthwyneb yn hollol. Y gwir yw ei fod wedi cyhoeddi bod hynny'n dod i ran pob un o'i wasanaethyddion, nid unwaith ond mewn cadwyn o chwech o gyfeiriadau a lefarodd fel yr oedd ei weinidogaeth ar y ddaear yn tynnu at ei therfyn *ac yn arbennig felly yn yr ymgom hir â'i ddisgyblion yn yr oruwchystafell.* Cyfeiriwn at adnodau sy'n haeddu llawer mwy o sylw nag a roir iddynt yn gyffredin. Adnodau ydynt pryd y gwnaeth Iesu Grist ddefnydd arwyddocaol dros ben o'r ymadrodd 'cael bod lle'r oedd efe'. Y geiriau hyn – 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' (Ioan 14:20) – yw'r pumed cyfeiriad.

Yr hyn sy'n hynod ynghylch y cyfeiriadau hyn yw fod Iesu Grist wedi cyfeirio at 'y lle' yr oedd ynddo dair gwaith cyn cynnig gair o esboniad ynghylch ble oedd y lle hwnnw! Y tro cyntaf, meddai wrth yr Iddewon, 'Lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod' (Ioan 7:34). Dim gair o esboniad ynghylch ble oedd 'y lle'. Dim ond dweud ei fod ef yno. Yr ail dro, eglurodd i gwmni cymysg, ei ddisgyblion ac eraill, y byddai ei wasanaethwyr yno: 'Lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngwasanaethwr hefyd' (Ioan 12:26). Unwaith eto dim gair o esboniad ynghylch ble oedd y lle. Y trydydd tro, eglurodd i'w ddisgyblion ei fod yn eu gadael i fynd i baratoi lle iddynt yn nhy ei Dad ac y dychwelai fel eu bod hwy yn cael bod lle roedd efe: 'Lle yr wyf fi, y bydd[w]ch chwithau hefyd' (Ioan 14:3). Unwaith eto, dim gair o esboniad. Dim ond dweud ei fod ef ei hun yno.

Yn ei bedwerydd a'i bumed cyfeiriad, esboniodd Iesu Grist i Philip yn gyntaf (Ioan 14:10-11) ac yna i'r disgyblion gyda'i gilydd, ble oedd 'y lle' y cyfeiriai ato, y 'lle' y caent hwythau fod ynddo, o ganlyniad iddo ef ddychwelyd atynt ac iddynt hwythau dderbyn yr Ysbryd Glân (Ioan 14:19-20). Yn y chweched cyfeiriad ar ddiwedd y

‘weddi offeiriadol’, fe’i clywsant yn egluro i’w Dad pam ei fod yn ewyllysio hyn i’r fath raddau: ‘Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, *lle yr wyf fi fod ohonynt hwythau hefyd gyda myfi . . .* oblegid ti a’m ceraist cyn seiliad y byd’ (Ioan 17:24).

Deffro cywreinrwydd

Gan fod y chwe chyfeiriad yn taflu goleuni gwerthfawr ar ei gilydd, rhown ystyriaeth i bob un yn ei dro. Bydd gofyn, fodd bynnag, rhoi sylw arbennig i’r pedwerydd a’r pumed cyfeiriad gan mai pryd hynny y rhoes Iesu Grist i’w ddisgyblion yr allwedd a fyddai’n eu galluogi i ddehongli’r tri chyfeiriad cyntaf yn ogystal â’r chweched a’r olaf.

Cyn hynny, fe fyddai’n ddoeth inni yn gyntaf ofyn pam yr oedd Iesu Grist wedi dewis ei fynegi ei hun mewn ffordd mor gryptig a dirgel yn y tri chyfeiriad cyntaf. Ar wahân i’r adegau pan fyddai’n gweithredu’n ddyfarnol ac, oherwydd caledwch eu calonnau, yn cuddio’r gwirionedd oddi wrth rai a fyddai’n gwrando (gweler Mathew 13:10-17), gosod gwirioneddau yn glir o flaen ei gynulleidfa a wnâi Iesu Grist fel arfer ac annog dynion i’w credu. Ambell dro, fodd bynnag, byddai’n gosod pethau yn y fath fodd fel y byddai’n rhaid i’w wrandawyr roi meddwl ar waith i geisio’u deall. Pan ofynnwn pam ei fod yn gwneud hynny, does ond un esboniad yn bosibl – er mwyn ennyn chwilfrydedd ynghylch mater a gyfrifai ef yn bwysig. Rydym ein hunain lawer gwaith wedi cyfeirio at rywbeth a feddwn neu yr edrychwn ymlaen ato – *heb ei enwi*. A’r ymateb bob tro yw deffro cywreinrwydd.

Cofiwn y cefndir.Yr oedd yn ei fwriad i ddadlennu i’w ddisgyblion wybodaeth werthfawr dros ben ynghylch ei berthynas ef â’i Dad ac yna, yn sgil hynny, wybodaeth debyg ynghylch eu perthynas hwy ag ef a thrwyddo ef â’r Tad yn y dyfodol agos. Byddai’n rhan hanfodol bwysig o’i esboniad sut y gallent weddïo ‘yn ei enw’ a thrwy hynny gael eu harwain i wneud yr hyn y byddai ef yn ei wneud trwyddynt.

Awn drwy’r chwe chyfeiriad fesul un. Cofiwn wrth wneud hynny nad cyfeirio at ryw fan lle y byddai yn y dyfodol yr oedd Iesu Grist ond at y lle yr oedd ef ynddo ar y pryd – ac yntau’n sefyll neu’n eistedd o’u blaen!

(A) Cyfeirio at y lle heb ei esbonio

(i) Yn ôl Ioan, defnyddiodd Iesu Grist yr ymadrodd ‘Lle yr wyf fi’ am y tro cyntaf,

wrth siarad â'r Iddewon ar ddiwedd gwyl y Pebyll yn Jerwsalem. Dyma'i eiriau:

'Yr ydwyf fi ychydig amser eto gyda chwi, ac yna yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd. Chwi a'm ceisiwch ac ni'm cewch; *a lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod'* (Ioan 7:33-34).

Os cymerwn mai at fynd i'r nefoedd y cyfeiriai Iesu Grist yn y ddwy frawddeg, ymddengys braidd yn annisgwyl ei fod yn yr ail frawddeg yn cyfeirio ato'i hun fel yn bod yn y 'lle' hwnnw, yn yr amser presennol: *'lle yr ydwyf fi, ni ellwch chwi ddyfod'.* Os y nefoedd a olygai, oni fyddai wedi bod yn fwy naturiol iddo fod wedi dweud yn yr ail frawddeg 'lle yr wyf fi *yn myned'* gan ddefnyddio'r un ferf ag a ddefnyddiodd yn y frawddeg gyntaf: *'yr wyf yn myned at yr hwn a'm hanfonodd.'* Dyna'r hyn a ddywedodd wrth gwmni o Iddewon ychydig yn ddiweddarach: 'Yr wyf fi yn myned ymaith, a chwi a'm ceisiwch i, ac a fyddwch farw yn eich pechod. *Lle yr wyf fi yn myned,* ni ellwch chwi ddyfod' (Ioan 8:21).

Mae'n amlwg bod Iesu Grist yn cyfeirio at rywbeth a oedd yn wir amdano ar y pryd (ac a fyddai'n parhau i fod yn wir amdano), na allai fod yn wir am yr Iddewon. Fe fyddai dau beth yn digwydd iddynt hwy. Fe fyddent yn ei geisio'n ofer am ei fod yn myned gyda hyn at yr hwn a'i hanfonodd. Yn ychwanegol at hynny (mae'r cysylltair 'ac' neu 'a' yn yr ail frawddeg yn bwysig), ni allent hwy fod 'yn y lle' yr oedd ef ynddo.

(ii) Defnyddiodd Iesu Grist yr un ymadrodd wrth ymateb i'r newydd a roes Philip ac Andreas iddo fod rhai Groegiaid 'oedd ymhlith y rhai a ddaethant i fyny i addoli ar yr wyl' yn dymuno'i weld. Meddai:

'Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi; *a lle yr wyf fi,* yno y bydd fy ngwasanaethwr hefyd' (Ioan 12:26).

Y sawl a fyddai'n ei wasanaethu ac yn ei ddilyn fyddai'r unig rai a fyddai'n cael bod lle yr 'oedd' efe. Ond unwaith eto, ni roddwyd un awgrym i'r cwmni cymysg ble oedd y lle hwnnw.

(iii) Mae'n arwyddocaol dros ben mai i'r disgyblion, pan oeddent gydag ef ar eu pennau eu hunain yn yr oruwchystafell, y rhoes Iesu Grist oleuni ar yr ymadrodd. Ond ni wnaeth hynny yn llawn, ar y dechrau, yn y fan honno chwaith! Fel yn yr

enghreifftiau blaenorol, cyfeiriodd at 'y lle yr oedd efe ynddo' ond heb ymhelaethu arno ar unwaith. Dyma'r geiriau hynny, geiriau a lefarodd wedi iddo dorri'r newydd ei fod ar fin eu gadael:

'Yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi. Ac os myfi a af ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun, fel *lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd'* (Ioan 14:3).

Gan fod Iesu Grist yn sôn am baratoi lle yn nhy ei Dad ac yn addo dychwelyd fel y caent hwythau fod 'lle yr wyf fi', cymerwn yn ganiataol mai'r nefoedd oedd y 'lle' hwnnw. (Fel y gwelsom eisoes, mae'n gydnabyddedig y gellir defnyddio'r amser presennol yn y Groeg i gyfleu sicrwydd rhywbeth sydd i ddigwydd yn y dyfodol.) Mae'n amheus, fodd bynnag, a yw'n gyfrifol ar ein rhan i dderbyn hyn fel esboniad yn yr achos hwn. Dywedwn hynny am y rheswm syml fod yr Arglwydd Iesu Grist y tro nesaf y defnyddiodd yr ymadrodd *yn yr un ymgom â'i ddisgyblion* (yn y ddegfed a'r unfed adnod ar ddeg o'r un bennod) wedi egluro ei hun ble oedd 'y lle' hwnnw.

(B) Rhoi'r esboniad i'w ddisgyblion

(iv) Digwyddodd pan ofynnodd, ym mhob difrifoldeb, i Philip:

'Onid wyt ti yn credu *fy mod i yn y Tad*, a'r Tad ynof finnau? Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd. Credwch fi, *fy mod i yn y Tad*, a'r Tad ynof finnau' (Ioan 14:10-11a).

Dyna'r 'lle' yr oedd Iesu Grist 'ynddo', fel y siaradai â'r Iddewon ar yr wyl yn Jerwsalem, a'r dyrfa gymysg, gan gynnwys y Groegiaid yn ddiweddarach, ac â'r disgyblion yn awr yn yr oruwchystafell. Yr oedd efe 'yn y Tad', ac yr oedd y Tad 'ynddo yntau'. Dyna paham y gallai ddweud bod y sawl a'i gwelodd ef wedi gweld y Tad: 'Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid ohonof fy hun yr wyf yn eu llefaru: ond y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.'

Dyna pryd hefyd y rhoes ar ddeall i'w ddisgyblion y byddai perthynas gyfatebol i'r hyn a'i nodweddai ef yn ei berthynas â'i Dad yn eu nodweddu hwythau yn eu perthynas ag ef: '*Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, yr hwn sydd yn credu ynof fi, y*

gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur, yntau hefyd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe am fy mod yn myned at y Tad.' Ond, sylwer, sôn am ffrwyth y berthynas, nid am ei natur a wnaeth yn y fan hyn. Fel mai'r Tad oedd yn gyfrifol am ei weithredoedd ef, Iesu Grist fyddai'n gyfrifol am eu gweithredoedd hwy. Ni chafwyd dim esboniad sut y gallai'r disgyblion fod lle yr 'oedd efe' fel y gallai hyn ddigwydd iddynt. Byddai'n rhaid aros hyd y pumed tro y cyfeiriodd at 'y lle' yr oedd ef ynddo.

(v) Rhoddwyd yr eglurhad fel rhan bellach o'i esboniad sut y deuai'r disgyblion i wybod beth fyddai ef yn ei wneud fel y gallent hwythau wneud hynny. Digwyddai hynny trwy iddynt weddïo gweddïau y gallent eu gweddïo 'yn ei enw': 'A pha beth bynnag a ofynnoch yn fy enw i, hynny a wnaf fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynnwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf' (Ioan 14:13-14). Ond sut y gallent hwy wybod beth i'w weddïo 'yn ei enw' ac yntau'n eu gadael? Meddai Iesu Grist, gan synhwyro'u hanhawster, 'Os cerwch fi, cedwch [chwi a gedwch] fy ngorchmynion . . . Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair' (Ioan 14:15, 23). Byddai ganddynt ei air a'i orchmynion. Os oeddent ymhlith y rhai a fyddai'n ei garu, byddent yn sicr o 'gadw' y naill a'r llall. A'r hyn a wnâi yntau fyddai gweddïo ar ei Dad nefol, ac fe fyddai ei Dad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt: 'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol' (Ioan 14:16*). A chanlyniad hynny fyddai y byddai perthynas o breswylio mewnol cyfatebol i'r berthynas a oedd rhyngddo ef a'i Dad, yn eu nodweddu hwythau yn eu perthynas ag ef, a thrwyddo ef â'u Tad nefol:*

'Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch; canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd. *Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau'* (Ioan 14:19-20).

Cyfeirio yr oedd at y diwrnod pan fyddai'n 'dyfod atynt': 'Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; mi a ddeuaf atoch chwi' – a phan fyddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt mewn ymateb i'w weddi drostynt. Y diwrnod hwnnw, diwrnod mawr ei Atgyfodiad, fe fyddai'r hyn a gyhoeddodd pan glywodd fod y Groegiaid yn chwilio amdano, yn cael ei wireddu: 'Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi; a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngwasanaethwr hefyd.' Fel yr oedd y Tad 'ynddo ef' ac yntau 'yn y Tad', fe fyddai yntau trwy ei Ysbryd 'ynddynt hwy' ac fe fyddent hwythau 'ynddo yntau'. O fod 'ynddo ef', gan ei fod ef 'yn y Tad', fe fyddent hwythau 'lle yr oedd efe'. Fe fyddai'r hyn a broffwydodd wrth y disgyblion yn yr oruwchystafell yn cael ei sylweddoli'n llawn: 'Os myfi a af ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi

ataf fy hun, *fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd'* (Ioan 14:3).

Yn fwy na hynny, pan dderbynient yr Ysbryd Glân, fe fyddent *'yn gwybod'* fod perthynas gyfatebol i'r berthynas a oedd rhyngddo ef a'i Dad yn wir amdanynt hwythau yn eu perthynas ag ef, a thrwyddo ef â'u Tad. O ganlyniad i dderbyn yr Ysbryd Glân, fe fyddai'r Arglwydd Iesu Grist yn trigo yn eu calonnau ac fe fyddent hwythau ynddo yntau, mewn perthynas barhaol. 'A mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn *dragwyddol*' (Ioan 14:16). 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:23). Gallent edrych ymlaen at weddïo gweddïau 'yn ei enw' er ei fod ar fin eu gadael! Fe fyddai'n dychwelyd atynt. Ac nid dod dros dro y byddai y tro hwn. Trwy fewnbreswyliad yr Ysbryd Glan byddai'n dod i aros. Gallent ymgynghori ag ef unrhyw amser.

Pe bai rhywun yn gofyn pam na fuasai Iesu Grist wedi ychwanegu'r cymal 'ac yn fy Nhad' at y geiriau oedd yn disgrifio dwy ochr y berthynas a fyddai rhyngddynt hwy ac ef, gallwn ateb ar ei ben. Doedd dim angen iddo wneud hynny. Os oeddent ynddo ef, ac os oedd yntau yn y Tad, fe fyddai'n dilyn eu bod hwythau, o fod yn y Mab, hefyd yn y Tad. O hynny allan gallai'r disgyblion ddweud yr hyn y gall pob credadun ar eu hôl ei ddweud: '[Ein] bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw' (Colosiaid 3:3b).

Tynnu sylw at yr union wirionedd hwn oedd pwrpas y gadwyn o ymadroddion a oedd yn cynnwys cyfeiriadau Iesu Grist at 'y lle' yr oedd ef ynddo a'r geiriau a lefarodd pan gyhoeddodd mai'r disgyblion, a hwy yn unig, a gâi fod ynddo – y geiriau a lefarodd wrth yr Iddewon yn gyntaf, yna'r dyrfa gymysg, ac yn olaf, ei ddisgyblion.

Yn rhyfeddol iawn, byddai'r ffaith ei fod wedi ymatal rhag ychwanegu'r geiriau 'ac yn fy Nhad', gan nad oedd eu hangen, yn tanlinellu'r gwirionedd mai trwy fod yn y Mab yr ydym yn y Tad. 'Yr hwn y mae'r Mab ganddo, y mae'r bywyd ganddo' meddai Ioan (1 Ioan 5:12a). Dyna'r drefn, meddai'r apostol Paul, gan ategu'r un gwirionedd: 'eich bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw', nid gyda'r Tad yng Nghrist. Mae'r Ysgrythur yn ddieithriad yn parchu'r drefn sy'n nodweddu dosraniad swyddogaethau gwahanol bersonau'r Drindod Sanctaidd.

Edrych yn ôl

Yn ogystal â bod yn gymorth mawr i'r disgyblion ddeall mai at eu perthynas gyfriniol hwy ag ef y cyfeiriai Iesu Grist bob tro yr addawodd y byddent yn cael bod lle yr oedd efe, byddai'r un gwirionedd wedi taflu goleuni gwerthfawr dros ben i'r disgyblion ar yr hyn a ddywedodd yn flaenorol yn y pedwerydd cyfeiriad:

'Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfannau; a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi. Ac os myfi a af ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun, fel *lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd*'(Ioan 14:2-3).

Dweud yr oedd Iesu Grist, wedi iddo ar Galfaria baratoi lle iddynt yn nhy ei Dad, y dychwelai atynt ac y cymerai hwynt ato'i hun. Ni ddywedodd yr un gair y funud honno pryd na sut y digwyddai hyn. Dim ond dweud yn syml y dychwelai. A yw'n briodol, felly, inni gymryd yn ganiataol mai at ei ddychweliad yn niwedd y byd neu at eu hymadawiad hwy o'r byd trwy farwolaeth y cyfeiriai? Faint o gysur a roddai hynny iddynt, a thristwch yn llenwi eu calonnau wrth feddwl am ei golli? Eu cysuro, yn sicr, oedd bwriad Iesu Grist. 'Na thralloder eich calon,' meddai; 'yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd.' Aeth ymlaen yn y cywair hwnnw: 'Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfannau; a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi. Ac os myfi a af ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun, fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd' (Ioan 14:1-3).

Onid yw'n llawer mwy tebygol y byddent wedi deffro drwyddynt wrth ei glywed yn dweud ei fod yn bwriadu dychwelyd atynt? O'r funud honno ymlaen fe fyddent ar flaenau eu traed yn gwrando am unrhyw friwsionyn o wybodaeth a roddai iddynt ynghylch y dychweliad hwnnw. Fe'u gwobrwywyd, fel y cofnodir yn y ddegfed adnod: 'Onid wyt ti yn credu fy mod *i yn y Tad, a'r Tad ynof finnau?';* ac yn y ddeunawfed adnod hyd at yr ugeinfed: 'Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; *mi a ddeuaf atoch chwi.* Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch; canys byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd. Y *dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.'* Pa 'ddydd' fyddai'r diwrnod hwnnw? Y dydd pan fyddai'r Tad nefol yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt mewn ymateb i'w weddi. Y dydd pan ddychwelai atynt. Rhaid fyddai iddo gyflawni'r addewid a roesai: 'Os gwasanaetha neb fi, dilyned fi; a lle yr wyf fi, yno y bydd fy ngwasanaethwr hefyd' (Ioan 12:26).

Myfi yw'r ffordd

Byddai deall mai at etifeddu perthynas gyfriniol ag ef, debyg i'r berthynas a'i nodweddai ef a'i Dad, y cyfeiriai Iesu Grist pan soniai am ei ddisgyblion yn cael bod 'lle yr oedd efe' wedi taflu goleuni gwerthfawr dros ben i'r disgyblion ar yr hyn a ddywedodd yn yr adnodau yr ydym newydd eu hystyried. Yr hyn sy'n bwysig i ni ei nodi yw y byddai wedi taflu goleuni amhrisiadwy werthfawr ar yr olaf ond un o'r gyfres o osodiadau 'Myfi yw', a lefarodd Iesu Grist i ddilyn y pedwerydd cyfeiriad: 'Myfi yw'r ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd. Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi' (Ioan 14:6).

Wedi iddo hysbysu ei ddisgyblion ei fod ar fin eu gadael, fe roddodd Iesu Grist ddau reswm iddynt pam na ddylent fod yn drallodus o'i glywed yn dweud hyn. Yn gyntaf, yr oedd yn myned i baratoi lle iddynt yn Nhy ei Dad. Nid dweud a wnaeth Iesu Grist, fel y mae cynifer yn cymryd yn ganiataol, ei fod yn mynd i'r nefoedd i baratoi'r nefoedd ar eu cyfer, fel pe na bai'r nefoedd yn ddigon da i'w bath hwy, neu ei fod wedi gorfod gadael ar frys, a bod gofyn iddo'u blaenori i wneud y nefoedd yn barod ar eu cyfer! Nid yw'r fannod i'w gweld yn unman yn y Groeg, er bod llawer yn mynnu ei gwthio i mewn: 'Yr wyf fi yn mynd i baratoi'r lle', meddent, heb i'r Arglwydd Iesu Grist erioed ddweud y fath beth. Ar wahân i unrhyw ystyriaeth arall, mae'r nefoedd yn berffaith. Does dim modd perffeithio perffeithrwydd.

Dweud yr oedd ei fod yn mynd i wneud yn bosibl le iddynt yn y nefoedd: 'Yr wyf fi yn myned i baratoi lle i chwi' (nid 'paratoi'r lle') – cyfeiriad clir at ei waith iawnol ar y Groes yn marw dros bechodau ei bobl a thrwy hynny, yng ngeiriau anfarwol John Elias, yn agor ffordd, 'pan rwygai'r llen, i bur drigfannau'r ne'.'

Wedi gwneud hynny, meddai, fe ddychwelai, nid yn niwedd y byd, er bod y dychweliad hwnnw'n ogoneddus addawedig, ond wedi gorffen yr hyn a oedd yn angenrheidiol iddo'i wneud fel y byddai lle iddynt hwy a'u tebyg yn nhy ei Dad. Dychwelai. A'i reswm dros ddychwelyd fyddai: fel y gallent hwythau fod lle'r oedd ef. *'Ac os myfi a af ac a baratoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd*.' Ble oedd Iesu Grist fel y siaradai? Yr ateb: 'yn y Tad'. Lle bu Iesu Grist trwy gydol ei weinidogaeth ar y ddaear? Yr un yw'r ateb: 'yn y Tad'. Braint y sawl a fyddai'n ei wasanaethu fyddai, o gael bod ynddo ef, cael bod gydag ef lle yr oedd efe bob amser, 'yn y Tad', yn y bywyd hwn yn awr, yn ogystal ag yn y byd a ddaw.

Mor hynod ddethol oedd y geiriau a ddewisodd Iesu Grist i ddisgrifio'r berthynas a fyddai rhyngddynt ac ef o ganlyniad i'r ffaith fod hyn wedi digwydd: 'Mi a ddeuaf drachefn *ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun*'! Fe fyddai'n anodd dod o hyd i ffordd well o gyfleu arwyddocâd ysbrydol y berthynas agosaf a all fod rhwng personau a'i gilydd – yr undeb cyfriniol a fyddai rhyngddynt hwy ac ef o ganlyniad I'r ffaith iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân ar ei archiad. Fe fyddent 'ynddo ef', ac o fod 'ynddo ef', gan ei fod ef 'yn y Tad', fe fyddent hwythau 'yn y Tad'. Fe fyddai yntau 'ynddynt hwythau'.

Myfi yw'r bywyd

Dyna paham yr ychwanegodd Iesu Grist mai efe yw 'y Bywyd' yn ogystal â bod 'y Ffordd'. Efe yw ein 'ffordd' at y Tad, yn yr ystyr ei fod wedi ei gwneud yn bosibl i ni gael ein cymodi â Duw a chael lle yn nhy ein Tad ddydd a ddaw. Efe yw ein 'bywyd' hefyd: y term a ddefnyddiai Iesu Grist i gyfeirio at 'fywyd tragwyddol' – y 'bywyd' a ddisgrifiodd ar weddi i'w Dad y noswaith honno fel 'dy adnabod di yr unig wir Dduw a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist' . O ddod ato ef yn awr, deuwn at y Tad yn awr; o ddod i'w adnabod ef yn awr, deuwn i adnabod y Tad yn awr; ac o fod 'ynddo' ef yn awr, fe fyddwn 'yn' y Tad yn awr – efe yw y Bywyd. Ychydig yn ddiweddarach, fe'i clywsant yn gwneud yr honiad hwn mewn termau cwbl ddi-droi'n-ôl: 'Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd' (Ioan 14:19b). Ef ei hun fyddai eu bywyd. Meddai Ioan yn ei epistol cyntaf, gan ddilyn dysgeidiaeth ei Arglwydd gyda phendantrwydd cwbl briodol a chyfrifol: 'A hon yw'r dystiolaeth: roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol; a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef. Yr hwn y mae'r Mab ganddo, y mae'r bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd' (1 Ioan 5:11-12).

Dyna paham hefyd yr ychwanegodd Iesu Grist: 'Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi' (Ioan 14:6). Mae hynny'n wir ynghylch cael mynedfa i dy ein Tad ac i'w bresenoldeb ar ddiwedd y daith. Mae'n wir hefyd ynghylch cael dod at y Tad a chael ei adnabod yn y bywyd hwn. Yn y ddwy sefyllfa, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw, 'Nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi.'

Myfi yw'r gwirionedd

Rhwng y ddau osodiad mawr, 'Myfi yw'r ffordd' a 'Myfi yw'r bywyd', y mae'r gosodiad pellach 'Myfi yw'r gwirionedd'. Fe fyddai llawer yn barod iawn i gredu bod Iesu

Grist wedi cynnwys y gosodiad pellach hwn rhwng y ddau osodiad arall oherwydd ei fod mor ymwybodol (fel ninnau) eu bod yn honiadau mawr iawn. Yr oedd yn awyddus i sicrhau pawb a fyddai'n eu hystyried fod y ddau osodiad mor wir â'i gilydd. Os hynny oedd ei fwriad, oni fyddai wedi bod yn ddoethach iddo fod wedi dweud gair clir i'r perwyl hwnnw? Fe wnâi brawddeg y tro yn iawn. Prin y byddai angen y gosodiad pellach mai ef yw'r gwirionedd a'i osod ar yr un gwastad â'r gosodiadau eraill.

Erbyn ystyried, fodd bynnag, nid cyhoeddi ei fod yn dweud y gwir yr oedd Iesu Grist ond dweud rhywbeth llawer iawn mwy. Efe yw'r gwirionedd. Yn gynwysedig yn y gosodiad hwn byddai'r holl wirioneddau y byddai'n rhaid iddynt fod yn wir amdano ef – gwirioneddau a fyddai'n mynd yn ôl i'r Cyngor bore a'r cyfan a benderfynwyd yno – er mwyn sicrhau iachawdwriaeth y bobl a roes y Tad iddo. Gwirioneddau fyddent y byddai dynion yn eu gwrthod yn llwyr. Roedd yn bwysig dros ben fod Iesu Grist yn pwysleisio'r ffaith mai 'Efe yw'r gwirionedd terfynol' – Ef ei hun.

Bod 'yng Nghrist'

Ni fyddem yn gor-ddweud pe dywedem fod athrawiaeth undeb cyfriniol y credadun â'r Arglwydd Iesu Grist yn un o'r athrawiaethau pwysicaf a mwyaf sylfaenol a berthyn i'r ffydd Gristnogol. I geisio gwneud unrhyw fath o gyfiawnder â hi, haedda astudiaeth lawn ar ei phen ei hun. I bwrpas ein diddordeb arbennig yn y gyfrol hon, y gymwynas orau y gallwn ei gwneud â'r darllenwyr yw tynnu eu sylw at y ffaith honno ac awgrymu eu bod yn mynd ati cyn gynted ag sydd bosibl i danlinellu'r ymadroddion 'yng Nghrist', 'gyda Christ' neu 'gydag ef', 'Crist ynom ni' (a'i amrywiadau sy'n cyfeirio at yr Ysbryd Glân fel Ysbryd Crist ynom) mewn unrhyw gopi o'r epistolau y gallant ei sbario i'r diben hwnnw. Mae'n debyg fod yr ymadrodd 'yng Nghrist' yn digwydd yn epistolau Paul 164 o weithiau. Dyna fesur y lle a roes yr apostol i'r gwirionedd hwn yn ei epistolau.

Fel y mae'r ffigur o 164 yn awgrymu, er i'r apostolion eraill gyfeirio lawer gwaith at y berthynas hon (yn enwedig Ioan yn ei epistol cyntaf), i Paul, yr apostol at y Cenhedloedd, y rhoddwyd y fraint o'i hesbonio lwyraf yn ei gwahanol agweddau. Nid oes pall ar y defnydd a wna o'r ymadrodd 'yng Nghrist'. Ar ddechrau chwech o'r naw llythyr a ysgrifennodd at eglwysi neu at gredinwyr ar wasgar, hwn oedd ei ddewis ymadrodd. (Cymharwn hyn â'r defnydd cymharol fach a wnawn ni o'r ymadrodd yn ein cyfarchion.) A phwy sy'n gyfarwydd â'i epistolau nad yw'n ymwybodol bod yr apostol yn ymorchestu, dro a thrachefn, yn y ffaith ein bod nid yn unig 'yng Nghrist' ond

bod yr Arglwydd Iesu Grist, trwy ei Lân Ysbryd, hefyd yn presenoli ei hun yn y credadun: 'Mi a groeshoeliwyd gyda Christ, ac nid myfi mwyach sydd yn byw, ond Crist sydd yn byw ynof fi' (Galatiaid 2:20), a llawer ymadrodd cyffelyb sy'n ymwthio i'r cof ar unwaith.

Un o gymwynasau pennaf ond odid yr apostol oedd ei waith, yn arbennig yn ei lythyr at y saint yn Rhufain, yn esbonio gwahanol agweddau ar yr uniaethu a'r uno a ddigwyddodd rhwng etholedigion Duw ac Iesu Grist (a) yn Nhragwyddoldeb, (b) yn ei ymgnawdoliad, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad ac (c) yn brofiadol iddynt trwy eu hailenedigaeth a mewnbreswyliad yr Ysbryd Glân.

Yn un ag Iesu Grist

(a) Yn nhragwyddoldeb. O gariad tuag at ei Fab a thuag at y cyfryw, fe roes y Tad rodd o eneidiau i fod yn eiddo iddo am dragwyddoldeb, ar y ddealltwriaeth y byddai yntau, fel eu cynrychiolydd, (i) yn dioddef yn eu lle y ddamnedigaeth a haeddent hwy am eu pechod; (ii) yn byw bywyd cyfiawn yn eu lle y gallai'r Tad ei briodoli iddynt hwy yn rhad. Ar y ddealltwriaeth hefyd, wedi iddynt gael eu haileni, y byddai (iii) gyda'r Tad a thrwy ei Lân Ysbryd, yn ymgymryd â'r gwaith o'u gwneud yn sanctaidd.

O hynny allan cyfrifai'r Tad fod y cyfryw 'yng Nghrist', yn un ag ef ac yntau'n un â hwy, wedi eu gorchuddio â'r ddarpariaeth ddwyfol a fyddai nid yn unig yn eu cuddio rhag digofaint Duw ond yn eu harddu a'u haddasu i gael eu harddel ganddo fel meibion iddo a chyd-etifeddion â'i Fab. At hynny y cyfeiria'r apostol yn Effesiaid 1:3-6: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yng Nghrist, megis yr etholodd efe ni *ynddo ef* cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad, wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ôl bodlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y bendithiodd efe ni yn rhad yn yr Anwylyd.'

(b) Yn ei ymgnawdoliad. Yn ei fywyd ar y ddaear cyflawnodd Iesu Grist ewyllys ei Dad 'heb ballu mewn un pwnc'. Bu fyw fel y bwriadodd Duw i bob dyn fyw, 'trwy bob gair a ddaeth allan o enau Duw'. Ei fwyd oedd gwneuthur ewyllys ei Dad yr hwn sydd yn y Nefoedd. Dyna'r cyfiawnder a gyfrifir i'r rhai a roddes y Tad iddo yn nhragwyddoldeb ac a rydd iddynt deitl diymwad i fywyd tragwyddol. Ond nid heb iddo hefyd

ddioddef, yn eu lle, y penyd a haeddent hwy, trwy farw, yn ysbrydol ac yn gorfforol, fel pechadur gerbron Duw sanctaidd a chyfiawn, ar y groes.

Gan ei fod, trwy ddwyfol osodiad, yn marw yn lle'r euog, roedd hynny'n gyfystyr i Dduw â bod yr euog wedi marw. Gan fod eu cosbedigaeth wedi ei thalu'n llawn, gallent gael eu rhyddhau o hualau marwolaeth ysbrydol, etifeddu'r cyfiawnder a weithiodd Iesu Grist drostynt yn ystod ei fywyd, cael eu cymodi â'r Tad, cael eu gwneud yn greaduriaid newydd a fyddai'n dymuno gwneud ewyllys Duw, a'u huno ag Iesu Grist fel bod hynny'n ymarferol bosibl. Pan atgyfododd Iesu Grist ar fore'r trydydd dydd, roedd hynny'n gyfystyr i'r Tad â bod y sawl y bu Iesu Grist farw drostynt, yng nghyflawnder yr amser, yn atgyfodi hefyd gydag ef i fywyd newydd, gan fod hynny'n addawedig iddo. Yng ngeiriau'r apostol, 'Eithr yr ydych chwi *ohono ef yng Nghrist Iesu,* yr hwn a wnaethpwyd i ni *gan Dduw* yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder ac yn sancteiddrwydd ac yn brynedigaeth' (1 Corinthiaid 1:30).

(c) Yng nghyflawnder yr amser daw Iesu Grist 'i geisio ei ddefaid ei hun'. Trwy fewnbreswyliad yr Ysbryd Glân daw'r uniad rhyngddo a'r cyfryw, a drefnwyd yn nhragwyddoldeb, a wireddwyd yn ddirprwyol ar eu rhan yn ei ymgnawdoliad, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad, yn ogoneddus wir yn eu profiad. Dyma'r gwirioneddau a ddisgrifir mor glir ac mor llawn gan yr apostol yn y chweched hyd at yr wythfed bennod o'i epistol at y Rhufeiniaid. Yr hyn sy'n eithriadol bwysig i ni ei sylweddoli yw mai yn yr oruwchystafell, yn y geiriau yr ym ni'n eu hystyried – 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau' – y bu i Iesu Grist sôn gyntaf wrth ei ddisgyblion am y wedd brofiadol a goddrychol sydd i'r uniad hwnnw.

Golyga hyn nad yn epistolau'r apostol Paul y ceir yr esboniad cyntaf ar y berthynas ysbrydol sy'n bodoli rhwng Iesu Grist a phob un sy'n credu ynddo, ond oddi ar wefusau Iesu Grist yn yr adnodau hyn. Ynddynt (Ioan 14:15-27) cawn esboniad Mab Duw ei hun ar beth yw gweinidogaeth sylfaenol yr Ysbryd Glân yng nghalonnau'r saint. Yma deuir o hyd i'w esboniad ef ar y gwahaniaeth a wna derbyn yr Ysbryd Glân, o ganlyniad i'w hailenedigaeth, yn hanes pob credadun. Gwahaniaeth ydyw sy'n golygu bod y berthynas agosaf un yn bodoli rhwng y cyfryw a'r Arglwydd Iesu Grist fel eu bod yn gallu mwynhau cymundeb ag ef a chael eu dwyn ganddo i berswâd ynghylch beth a fyn iddynt ei weddïo 'yn ei enw', a'i fod yr un pryd yn bresennol gyda hwy ym mhob man fel y gallant hwythau 'wneud yr hyn y byddai efe yn ei wneud'!

(C) Y deisyfiad

(vi) Er bod gennym ffordd i fynd cyn y cyrhaeddwn y chweched tro y cyfeiriodd Iesu Grist at y disgyblion yn cael bod 'lle yr oedd efe', fe'i crybwyllwn yma a chawn ei ystyried yn ofalus pan ddeuwn at y geiriau eu hunain. Digwyddodd pan weddïodd Iesu Grist ar ran ei ddisgyblion cyn eu gadael (Ioan 17:20-26). *Digon yw dweud yn y fan yma mai gofyn i'w Dad nefol beri bod y disgyblion (ynghyd â'r sawl a gredai ynddo ef trwy eu hymadrodd hwy) yn cael eu cadw yn yr un berthynas ysbrydol a chyfriniol ag ef ac â'u Tad nefol ag a nodweddodd y Tad a'r Mab yn eu perthynas â'i gilydd, oedd pennaf byrdwn y weddi honno*. Fe'i mynegodd fel cais i ddechrau:

Y cais: 'Ac nid wyf yn gweddïo dros y rhai hyn yn unig, eithr dros y rhai hefyd a gredant ynof fi trwy eu hymadrodd hwynt; fel y byddont oll yn un, megis yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minnau ynot ti; *fel y byddont hwythau un ynom ni'* (Ioan 17:20-21). Nid 'fel y byddont oll yn un ynof fi' a ddywedodd Iesu Grist. Nid 'fel y byddont oll yn un ynot ti' a ddywedodd chwaith. 'Fel y byddont un *ynom ni.' Bod pob un a gredai ynddo ef yn cael eu cadw 'lle'r oedd efe' yn ogystal â bod ynddo ef oedd ei gais.* Ni allai orffen ei weddi heb bwysleisio pa mor bwysig oedd hyn yn ei olwg.

Yr esboniad: 'Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, *lle yr wyf fi fod ohonynt hwythau hefyd gyda myfi,* fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi; oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd' (Ioan 17:24). Ble oedd Iesu Grist yr holl amser? 'Yn y Tad.' Yno yr oedd am i'w ddisgyblion gael eu cadw hefyd. Cawn drafod yr adnodau hyn yn helaethach pan ddeuwn at y weddi ei hun (Pennod 12, 'Uchafbwynt y weddi').

Yn y bennod nesaf awn ymlaen i ystyried y drydedd addewid a roes Iesu Grist i'w ddisgyblion i'w cysuro ymhellach ynghylch y ffordd y byddai'n eu cynorthwyo i ddod o hyd i'r weddi y gallent ei gweddïo yn ei enw: 'Yr hwn sydd a'm gorchmynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn sydd yn fy ngharu i. A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a'i caraf ef *ac a'm hamlygaf fy hun iddo'* (Ioan 14:21b).

(Troednodyn: I'r sawl sydd â diddordeb arbennig mewn cwestiynau sy'n ymwneud ag undeb eglwysig, awgrymwn y gallai'r cyfryw fynd ar eu hunion i benodau 11 a 12 a'u darllen hwy yn gyntaf. Fodd bynnag, yn wyneb y sylw neilltuol a roes Iesu Grist i beth fyddai ei berthynas ef â'i ddisgyblion wedi ei ymadawiad a beth fyddai

swyddogaeth gweddi yn y berthynas honno, awgrymwn mai doethach, os yw hynny'n bosibl, yw dilyn y llwybr a gymerodd efe. Os gwnawn hynny, gyda gofal, buan y gwelwn fod popeth a rannodd Iesu Grist â hwy y noson honno yn arwain yn naturiol at y weddi a weddïodd drostynt cyn eu gadael.)

C:/Canllawiau Cred/Canllawiau Cred, Pennod 5